Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro

# IS-DDEDDFAU CŴN AR GYFER TRAETHAU A PHROMENADAU

## IS-DDEDDFAU AR GYFER TRAETHAU A PHROMENADAU

Is-ddeddfau a wneir gan Gyngor Sir SIR BENFRO o dan Adrannau 82 a 83 Deddf Newid y Deddfau Iechyd Cyhoeddus 1907 ac Adran 235 Deddf Llywodraeth Leol 1972 mewn perthynas  r forlan a r promenadau.

## STENT

**1** (1) Mae is-ddeddfau 3 a 4 yn berthnasol i r traeth, sef darn o r forlan a ddisgrifir yn Atodlen 1 a elwir wedi hyn  y traeth y gwaherddir cŵn ohono  ac yn berthnasol i unrhyw lethr neu staer sy n arwain at unrhyw draeth.

2) Mae is-ddeddf 5 yn berthnasol i r holl bromenadau a ddisgrifir o dan adran 27 Deddf Traffig y Ffyrdd 1988. Bydd promenadau y mae is-ddeddf 5 yn berthnasol iddynt yn cael eu galw wedi hyn  y promenadau".

(3) Nid yw is-ddeddf 5 yn berthnasol mewn perthynas ag unrhyw gi y mae adran 1 Deddf Cŵn Peryglus 1991 yn berthnasol iddo.

(4) Bydd Rhybudd o roi r is-ddeddfau hyn mewn grym yn cael arwyddion a ddodir mewn mannau amlwg ar y ffyrdd dynesu at y traeth a r promenadau y gwaherddir cŵn ohono.

## DEHONGLIAD

**2.** Yn yr is-ddeddfau hyn;

(1) Mae "y Cyngor" yn golygu CYNGOR SIR PENFRO.

(2) Ar gyfer dibenion yr is-ddeddfau hyn ystyrir bod ceidwad y ci  gofal amdano, oni bai bod y ci wedi i ddodi yng ngofal neu wedi i gymryd ymaith er mwyn bod yng ngofal person arall ar yr adeg y cafodd trosedd ei gyflawni o dan yr is-ddeddfau hyn.

(3) Ym mharagraff (2) uchod bydd "y ceidwad" yn cynnwys perchennog y ci neu unrhyw berson arall sydd ag ef yn ei feddiant yn gyson.

## CŴN AR Y TRAETH

**3.** Rhwng 1 Mai a 30 Medi yn gynhwysol mewn unrhyw flwyddyn bydd pob person (ac eithrio person dall cofrestredig)  gofal ci sydd heb esgus rhesymol sy n caniat u i r ci fynd ar neu i aros ar y traeth y gwaherddir cŵn ohono yn euog o drosedd.

**4.** Efallai y bydd un o swyddogion y Cyngor neu unrhyw gwnstabl yn gofyn i berson  gofal ci sydd wedi mynd ar y traeth y gwaherddir cŵn ohono fynd  r ci oddi yno.

## CŴN AR DENYNNAU

5. Rhwng Mai 1af a Medi 30ain yn gynhwysol mewn unrhyw flwyddyn ni fydd unrhyw berson gofal ci heb esgus rhesymol yn caniatau i r ci fynd ar nac i aros ar unrhyw un o r promenadau oni bai bod y ci wedi i ddal ar dennyn ac wedi i gyfyngu rhag ymddygiad a fyddai n rhoi achosion rhesymol dros beri annifyrrwch.

## COSB

6. Bydd unrhyw berson sy n troseddu yn erbyn is-ddeddf 3 a 5 yn agored pan gaiff gollfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 2 ar y raddfa safonol.

## ARBED HAWLIAU R GORON AC ERAILL


7. Ni fydd unrhyw beth a gynhwysir yn unrhyw un o r is-ddeddfau blaenorol yn cael ei ystyried nac yn gweithredu fel caniat d gan neu ar ran y Goron fel perchennog unrhyw ran o r forlan a gwely r m r islaw r llinell penllanw neu unrhyw ystad neu fuddiant o neu hawl dros unrhyw ran o r forlan a gwely r m r, ac ni fydd unrhyw beth a gynhwysir yn nac a wnaed o dan unrhyw un o ddarpariaethau r is-ddeddfau blaenorol yn peryglu nac yn cael effaith niweidiol ar unrhyw hawliau na buddiannau r Goron yn y cyfryw forlan a gwely r m r mewn unrhyw fodd nac yn atal unrhyw hawliau cyhoeddus rhag cael eu harfer ar hynny nac yn peryglu nac yn cael effaith niweidiol ar unrhyw hawl, pŵer na braint y gellir eu harfer yn gyfreithlon gan unrhyw berson yn, dros ac mewn perthynas r forlan a gwely r m r.

## ATODLEN 1


"Y traeth y gwaherddir cŵn ohono" y cyfeirir ato yn is-ddeddf 1(1) yw r darn wedi i linellu n las ar y cynllun a atodir i r is-ddeddfau hyn.

## ATODLEN 2


"Y promenadau" y cyfeirir atynt yn is-ddeddfau 1(2) ac 1(3) yw r darn wedi i liwio n felyn ar y cynllun a atodir i r is-ddeddfau hyn.




# 1 Traeth Lydstep




# 2 Traeth a Phromen d Niwgwl




# 3 Traeth a Phromen d Saundersfoot



# 4 Phromenadau Traeth y Gogledd a Harbwr Dinbych-y-pysgod




# 5 Traeth y De a Chastell Dinbych-y-pysgod




## 6 Traeth y Gogledd & Thraeth Harbwr Dinbych-y-pysgod





## 7 Traeth & Phromen d Llanrhath




# 8 Porth Mawr





# 9 Traeth Poppit



# 10 Broadhaven




ROCKS
CREIGIAU
School House
Cliff
CASTLE WAY
CASTLE WAY
B 4327
B 4327
Ardal y gwaherddir cŵn ohoni rhwng Mai 1af a Medi 30ain
Ardal cŵn ar dennyn rhwng Mai 1af a Medi 30ain